



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

14/03/2022

Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,

Rydyn ni'n ysgrifennu i roi gwybod i chi y gallwn nawr gynnig brechlyn COVID-19 i'ch plentyn. Y brechlyn yw'r ffordd orau o ddiogelu eich plentyn rhag y posibilrwydd o salwch difrifol. Mae'r llythyr hwn yn darparu gwybodaeth i'ch helpu chi a'ch plentyn i ddeall mwy am y brechlyn.

Yn yr wythnosau nesaf bydd GIG Cymru yn cysylltu â rhieni a gwarcheidwaid plant 5 i 11 oed i gynnig y brechlyn iddynt. I gael gwybodaeth berthnasol i'ch ardal chi, mae tudalennau'r byrddau iechyd sy'n ymwneud â brechlynnau wedi'u rhestru yma: <https://llyw.cymru/cael-eich-brechlyn-covid-19>.

Bydd y rhan fwyaf o blant 5 i 11 oed yn cael cynnig dau ddos o'r brechlyn Pfizer BioNtech, gyda bwlch o 12 wythnos rhwng y dosau. Os nodwyd bod eich plentyn yn wynebu risg glinigol, neu os yw'n gyswllt cartref i rywun ag imiwnedd gwannach na'r cyffredin, y bwch fydd 8 wythnos.

Mae rheolydd meddyginiaethau annibynnol y DU, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), wedi cadarnhau bod y brechlyn hwn yn ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer plant o'r oedran hwn. Maent wedi cynnal adolygiadau manwl o ddiogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y brechlyn COVID-19 ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn argymhell y dylai dau ddos o'r brechlyn roi amddiffyniad hirdymor i'ch plentyn yn erbyn cymhlethdodau'r haint. Dylai hefyd baratoi eu system imiwnedd ar gyfer unrhyw amrywiolion a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol.

Fel riant / gwarcheidwad, bydd angen i chi roi caniatâd er mwyn i'ch plentyn gael y brechlyn. Bydd angen ichi hefyd fynd gyda'ch plentyn neu roi caniatâd ysgrifenedig i rywun arall fynd gyda nhw. Os yw eich plentyn yn sâl gyda gwres neu os yw wedi cael prawf coronafeirws positif yn y 28 diwrnod cyn yr apwyntiad, dylech ohirio'r brechlyn fel y nodwyd yn y dolenni cyswllt isod. Rhowch wybod i'ch bwrdd iechyd.

Bydd y brechlynnau'n cael eu rhoi mewn amgylchedd diogel, sy'n addas ar gyfer plant. Bydd staff profiadol a chefnogol y GIG yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Efallai y bydd o gymorth i blant ifanc fynd â thegan, llyfr neu ddyfais i'w cadw'n brysur, a rhywbeth bach i'w fwyta yn syth ar ôl y pigiad.

Mae bron i 9 o bob 10 o bobl gymwys (12+ oed) yng Nghymru eisoes wedi cael dau ddos sylfaenol y brechlyn COVID-19. Defnyddiwch yr adnoddau yn y dolenni isod i'ch helpu chi a'ch plentyn i ddod i benderfyniad ynghylch manteisio ar y cynnig hwn.

Mae'r dolenni cyswllt hyn yn mynd i ffynonellau cywir y gellir ymddiried ynddynt ac sy'n cynnwys gwybodaeth am frechlynnau. Mae yma ffeithiau am ddiogelwch, effeithiolrwydd a sgil-ffeithiau posibl (sydd fel arfer yn ysgafn ac nad oes angen eu trin). Byddai'n syniad cynnwys eich plentyn gan edrych ar rai o'r adnoddau addas i blant isod hefyd:

Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/>

Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer plant 5-17 oed  
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/resources-for-health-and-social-care-professionals/covid-19-guide-5-17-text-only-version-1-welsh/>

Public Health England <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-vaccination-resources-for-children-aged-5-to-11-years>

Cymdeithas Imiwnoleg Prydain <https://www.immunology.org/public-information/guide-vaccinations-for-covid-19>

Y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu -  
<https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-vaccination-resources-for-children-aged-5-to-11-years/a-guide-for-parents-of-children-aged-5-to-11-years>

Mae brechlynnau'n arbed bywydau. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod o leiaf 2-3 miliwn o farwolaethau'n cael eu hatal bob blwyddyn drwy imiwneiddio. Os yw eich plentyn wedi colli unrhyw apwyntiadau imiwneiddio rheolaidd yn ystod y pandemig, rhwch wybod i'ch Practis Meddyg Teulu. Gallant eu haildrefnu. Ewch i <https://111.wales.nhs.uk/LiveWell/vaccinations/default.aspx?locale=cy> i gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,

**Swyddfa Prif Swyddog Meddygol Cymru**